Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Gwaith craffu blynyddol: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2024

Ebrill 2025

## Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn 2018 fel corff cynghori anstatudol ac annibynnol i Weinidogion Cymru. Prif ddiben y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith hirdymor Cymru.

**2.** Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) wedi cytuno i gynnal gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

**3.** Dyma drydydd adroddiad y Pwyllgor ar y Comisiwn. Mae'n canolbwyntio ar Adroddiad Blynyddol 2024 y Comisiwn[1] ac yn adeiladu ar y safbwyntiau a fynegwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, yr adroddiad cyntaf[2] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 a'r ail adroddiad[3], a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024.

**4.** Ar 20 Chwefror 2025, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Dr. David Clubb, Cadeirydd y Comisiwn, Dr. Eurgain Powell ac Eluned Parrott, ill dau yn aelodau o'r Comisiwn.

[1] Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru Adroddiad Blynyddol 2024.
[2] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Adroddiad blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru – 2022-23, Mawrth 2023.
[3] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023, Ebrill 2024.

# 1. Rôl, cylch gorchwyl a ffyrdd o weithio

## Adolygiad Llywodraeth Cymru

**5.** O dan gylch gorchwyl y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal "adolygiad cynhwysfawr o'i statws [y Comisiwn], ei gylch gwaith a'i amcanion o leiaf unwaith bob 5 mlynedd."[4].

**6.** Yn ei adroddiad craffu blynyddol diwethaf, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

> *"Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o statws, rôl ac amcanion y Comisiwn cyn diwedd 2024. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r gwahanol sectorau seilwaith a rhanddeiliaid perthnasol eraill i lywio'r adolygiad."*[5]

**7.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Llywodraeth ac aeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ymlaen i ddatblygu'r adolygiad.

**8.** Gwnaeth Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ysgrifennu at y Pwyllgor yn ddiweddar, gan adrodd ar ganlyniad yr adolygiad.[6] O ran y canfyddiadau, dywed Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol:

> *"Rwy'n falch bod yr adolygiad, ar y cyfan, yn rhoi statws sicrwydd 'gwyrdd golau' i NICW, sy'n dangos sicrwydd rhesymol bod prosesau rheolaeth, llywodraethu a rheoli risg yn cael eu cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n effeithiol. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad 6 arsylwad sydd angen sylw sy'n agored i risg cymedrol hyd nes y caiff ei ddatrys. Roedd yr arsylwadau hyn yn ymwneud yn bennaf â materion yn rhodd Cadeirydd NICW ac mae swyddogion wedi derbyn 'Camau Rheoli' i weithio gyda'r Cadeirydd i'w datrys."*[7]

[4] Llywodraeth Cymru Cylch Gorchwyl Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2022.
[5] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023, Ebrill 2024.
[6] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.
[7] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

**9.** Mae'r adroddiad archwilio yn rhoi mwy o fanylion am y materion hyn, a'r camau gweithredu a nodwyd o ganlyniad. Nododd yr adolygiad nifer o gryfderau, gan gynnwys y canlynol:

- Mae newidiadau a wnaed ers y Comisiwn cyntaf wedi bod yn effeithiol;
- mae cynllunio olyniaeth wedi'i ystyried yn briodol;
- mae aelodau'r Comisiwn yn dod o gefndiroedd gwahanol;
- mae'r llythyr cylch gwaith yn gosod cyfeiriad clir;
- mae Comisiynwyr wedi bod yn rhagweithiol yn eu hymagwedd; a hefyd
- mae datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hystyried a'u rheoli'n briodol.

**10.** Dyma'r chwe mater a godwyd yn adroddiad yr adolygiad:

- Nid yw dull strategol y Comisiwn yn diffinio'r strategaeth ar gyfer cyflawni llwyddiant neu dargedau i ganiatáu gwerthuso perfformiad;
- nid oes unrhyw fetrigau perfformiad i ategu diweddariadau ar berfformiad;
- nid oes unrhyw ymarferion o ran gwersi a ddysgwyd ar adroddiadau'r Comisiwn;
- mae angen gwella trefniadau rheoli risg;
- nid oes unrhyw gylch gorchwyl i gefnogi cyfarfodydd y Comisiynwyr; a hefyd
- mae diweddariadau llafar mewn cyfarfodydd yn effeithio ar y gallu i ddarparu gwaith craffu cadarn, a herio'r Comisiwn.

**11.** Ymatebodd y Comisiwn i'r adolygiad mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet.[8] Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Dr. Clubb y canlynol:

> *"They've made a number of recommendations, most of which we've already implemented … I think we received a reasonably clean bill of health for our first audit, and hopefully, we can put*

[8] CSCC: Llythyr i Lywodraeth Cymru, 24 Chwefror 2025.

> *in place improvements to the processes to make sure that, next time, it's full green rather than light green."*[9]

**12.** Awgrymodd y Pwyllgor i Dr. Clubb fod yr adolygiad yn teimlo'n debycach i archwiliad nag adolygiad cynhwysfawr, trwy rhyw fath o lens archwilio yn hytrach nag adolygiad o'r hyn y mae'n ei wneud.[10]

**13.** Dywedodd Dr. Clubb y canlynol:

> *"a review of what we do would probably be more of a political choice, because that would then inform the remit or the terms of reference. …. if we call it an audit, it's a clean bill of health on how this organisation is operating. And then come May next year, there'll be a new Minister, up to them to take a view … So, I think it did its job as part of what will be a process that concludes, probably, in May or June next year."*[11]

## Monitro canlyniadau

**14.** Dywed y Comisiwn, os yw'n gweithredu'n effeithiol, y bydd yn gweld y canlyniadau canlynol, a nodwyd mewn adroddiad blynyddol blaenorol:

- polisi ar gyfer y dyfodol sy'n gwella'r cyfoeth sy'n cael ei greu o ynni adnewyddadwy; sy'n rheoli tir yn well at amrywiol ddefnyddiau seilwaith; ac sy'n meithrin gwell dealltwriaeth o safbwyntiau cymunedau lleol; a hefyd
- bydd polisi ac ymarfer ar gyfer y dyfodol yn fwy ystyriol o ffyrdd i leihau effaith llifogydd ar gymunedau a seilwaith Cymru;
- bod y Comisiwn a rhanddeiliaid eraill yn fwy gwybodus am sut i gyfleu risgiau hirdymor i gymunedau sydd fwyaf agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- caiff gweithgareddau ac argymhellion y Comisiwn eu llywio'n well gan ystod eang ac amrywiol o randdeiliaid; a hefyd
- gwell proffil ac enw da i'r Comisiwn.[12]

---

[9] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Chwefror 2025, paragraff 40.
[10] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 47.
[11] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 48.
[12] CSCC Adroddiad blynyddol 2021/22, Tachwedd 2022.

**15.** Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y Comisiwn yn darparu crynodeb o'i berfformiad hyd yma yn erbyn y canlyniadau hyn.[13]

**16.** Yn adroddiad y llynedd daethom i'r casgliad ei bod yn rhy gynnar i benderfynu sut y mae gwaith y Comisiwn yn dylanwadu ar feddylfryd Llywodraeth Cymru. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy tra bod y Comisiwn nawr yn aros am ymateb y llywodraeth i'w adroddiad ar lifogydd.

**17.** Mae'r Comisiwn wedi sefydlu proses i fonitro gweithrediad ei argymhellion.[14] Mae adolygiad Llywodraeth Cymru, yn ei dro, wedi awgrymu rhai gwelliannau (fel y nodir uchod) gan gynnwys cyflwyno metrigau perfformiad i gefnogi diweddariadau perfformiad ac ymarferion gwersi a ddysgwyd ar adroddiadau'r Comisiwn.

## Tymor y swydd

**18.** Yn ein hadroddiad diwethaf, gwnaethom argymell fel a ganlyn:

> *"Fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o statws, rôl ac amcanion y Comisiwn, dylai ystyried yr achos dros ymestyn y tymor penodi ar gyfer Comisiynwyr fel ei fod yn cyd-fynd yn well â phenodiadau cyhoeddus eraill."*[15]

**19.** Ar ôl ystyried y mater hwn, nododd y Llywodraeth:

> *Mae gan Gymru bedwar Comisiynydd a benodir gan Brif Weinidog Cymru. Caiff pob un ohonynt eu penodi am gyfnod penodol o saith mlynedd, mae ganddynt bwerau statudol ac mae ganddynt drefniadau cyllid a llywodraethu ffurfiol. Fel corff cynghori anstatudol, nid oes gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yr un trefniadau cyllido na llywodraethu, gyda chyfnod safonol yn y swydd o dair blynedd."*[16]

**20.** Gwnaeth adolygiad Llywodraeth Cymru gymariaethau meincnodi â chyrff cynghori a phaneli eraill Llywodraeth Cymru, megis y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, heb ddod i unrhyw gasgliadau pendant. Nododd fod gan rai o'r cyrff hyn opsiwn ar gyfer ail dymor yn y swydd ac awgrymodd "yr

[13] CSCC Adroddiad Blynyddol 2024, Rhagfyr 2024.
[14] CSCC: Ein heffaith – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
[15] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2023, Ebrill 2024.
[16] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

ymddengys ei bod yn rhesymol estyn y cyfnod yn y swydd", er y dylai hyn gael ei ategu gan "drefniadau rheoli perfformiad mwy cadarn."[17]

**21.** O ran y Comisiwn, dywedodd y canlynol:

> *"We see the merit in having a 'rolling succession' of Commissioners where some experience stays within NICW after a set of Commissioners depart. For example, we have one Commissioner at present who was a member of the previous Commission. The move to a 4-year election cycle from the next Senedd term makes it reasonable to suggest moving to a 4 years + 4 years term of office for Commissioners, supported by enhanced performance management arrangements."*[18]

## Dyfodol y Comisiwn

**22.** Penodwyd y Comisiwn presennol yn wreiddiol am gyfnod o dair blynedd, rhwng 2021-22 a 2024-25. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad i benodiadau'r Comisiynydd presennol hyd at fis Rhagfyr 2025 er mwyn caniatáu i'r Comisiwn "gwblhau ei raglen waith bresennol".[19]

**23.** Gan adlewyrchu'r cyfnod hwn o ansicrwydd, dywedodd Dr.Clubb y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"We are mindful of our current appointments coming to an end in December this year. What I'm very keen to do is to avoid everybody leaving at once, which is almost what happened last time, so we're encouraging some people that want to, to stay on, and giving the opportunity to others to leave.*
>
> *"I still don't know quite what's going to happen with my own term. I've had some suggestion it might be helpful for me to stay on until after the election next year to provide continuity of leadership. I'm not quite sure what's going to happen there, but I can assure the Members here that we will be putting in place, in good time, a recruitment process, to ensure that, whatever*

[17] Llywodraeth Cymru Adroddiad y gwasanaeth archwilio mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.
[18] CSCC: Llythyr at Lywodraeth Cymru, 24 Chwefror 2025.
[19] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru – Ymestyn Penodiadau, Tachwedd 2024.

> *happens, there will be continuity—so, we will have existing commissioners; we will have new commissioners."*

**24.** Mae natur anstatudol y Comisiwn ac etholiadau'r Senedd sydd ar ddod yn 2026 yn ychwanegu rhagor o ansicrwydd.

**25.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio at argymhellion blaenorol y Pwyllgor a'r sylwadau a wnaed gan yr adolygiad gan gynnwys ar statws, cylch gorchwyl ac amcanion y Comisiwn. Mae'n nodi:

> *"…bydd angen ystyried y rhain ymhellach wrth iddynt fynd i gylch gwaith NICW a'i raglen waith tymor hwy a byddaf yn ymateb maes o law arnynt. Wrth ddod i farn ar hyn, hoffwn glywed barn y Pwyllgor ei hun ar y materion hyn.*[20]

**26.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd am y berthynas â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU. Dywedodd Dr. Clubb fod gan y ddau gomisiwn berthynas gadarnhaol, fel y gwelir gan y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir, a'r ffaith bod Comisiwn y DU wedi eistedd ar grwpiau cynghori ar gyfer yr adroddiadau ar ynni adnewyddadwy a llifogydd.[21]

**27.** Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU ei hun mewn cyflwr o newid wrth i Lywodraeth y DU gynllunio i uno'r Comisiwn â'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau i greu Awdurdod Trawsnewid Gwasanaethau a Seilwaith Cenedlaethol newydd.[22]

## Cyllido'r Comisiwn

**28.** Ers 2022-23, dyrannwyd cyllideb flynyddol o tua £400,000 i'r Comisiwn. Mae'r un ffigur wedi'i ddyrannu fel rhan o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.[23]

**29.** Yn ei hadolygiad, dywed y Llywodraeth y "gellid ystyried cytuno ar gyllid y Comisiwn am dymor y llywodraeth er mwyn sicrhau cysondeb â'r Llythyr Cylch Gwaith".[24]

---

[20] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Ionawr 2025.
[21] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 33.
[22] Llywodraeth y DU New body to "get a grip" on infrastructure delays, Hydref 2024.
[23] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, Ionawr 2025.
[24] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

**30.** Wrth ymateb i'r adolygiad hwnnw, dywedodd y Comisiwn y canlynol:

> *"NICW recently received early assurances of funding for 2025/26 which means that we can begin planning our projects in good time. We request that this good practice is continued in future years to enable NICW to plan and procure work in a timely manner."*[25]

## Rheoli achosion o wrthdaro buddiannau

**31.** Roedd adroddiad y Pwyllgor y llynedd yn argymell y canlynol:

> *"Dylai'r Comisiwn ymrwymo i sicrhau bod y gofyniad i Gomisiynwyr ymneilltuo o drafodaethau neu benderfyniadau lle bo gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro canfyddedig yn codi yn cael ei fodloni'n gyson. Dylai hefyd ymrwymo i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad."*[26]

**32.** Gan ymateb i'r argymhelliad hwnnw, ysgrifennodd Cadeirydd y Comisiwn at y Pwyllgor i nodi'r canlynol:

> *"Mae'r Comisiwn wedi cymryd camau sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf i gynyddu ei dryloywder ynghylch gwrthdaro neu wrthdaro buddiannau canfyddedig. Mae hyn yn cynnwys diweddaru ei gofrestr ar-lein ar wefannau Llywodraeth Cymru a CSCC. Mae gwefan CSCC yn cynnwys buddiannau datganedig pob Comisiynydd ar eu tudalennau bywgraffiad personol. Ym mhob cyfarfod, cofnodir gwrthdaro buddiannau newydd yn nodiadau'r cyfarfod, a gyhoeddir ar-lein pan gânt eu cymeradwyo. Gofynnir i Gomisiynwyr nodi unrhyw wrthdaro canfyddedig ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod a gofynnir iddynt adael y cyfarfod ar gyfer eitemau sydd â risg o ganfyddiad o wrthdaro buddiannau. Cofnodir hyn yng nghofnodion y cyfarfod."*[27]

[25] CSCC: Llythyr at Lywodraeth Cymru, 24 Chwefror 2025
[26] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2023: Ebrill 2024
[27] CSCC: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar graffu blynyddol ar CSCC 2023., Mai 2024.

**33.** Ailadroddodd Dr David Clubb yn ei dystiolaeth, fel y nodwyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru, y barnwyd fod y Comisiwn yn delio'n briodol ag achosion o wrthdaro buddiannau.[28]

**34.** Canfu adroddiad gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru y "caiff datganiadau o fuddiant eu hystyried a'u rheoli'n briodol."[29]

## Annibyniaeth

**35.** Er fod gan y Comisiwn gylch gorchwyl "i benderfynu ar ei raglen waith, ei fethodolegau a'i argymhellion yn annibynnol, yn ogystal â chynnwys ei adroddiadau a'i ddatganiadau cyhoeddus"[30], caiff y Comisiwn ei benodi a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael cymorth gweinyddol ganddi. Wrth sôn am sut mae'r Comisiwn yn rheoli'r tensiynau hyn, dywedodd Dr. Clubb y canlynol:

> *"Welsh Government pays for us to operate, and therefore you need to have confidence that we can make a robust challenge to Welsh Government on any issues. … we push back where we feel that Welsh Government is not listening to us… for example, on issues with renewable energy, where we think that they haven't responded satisfactorily. So, you'll see evidence in our correspondence that we keep trying to go back to them. We set our programme of work independently, particularly now, because the original remit set out expectations for the first two years."*[31]

## Terfynau amser ar gyfer ymateb i adroddiadau

**36.** Ar adeg ein sesiwn graffu ddiwethaf, roedd y Comisiwn yn dal i aros am ymateb i'w adroddiad mawr cyntaf, *Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy* 2050, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023.[32] Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad ym mis Mai 2024.

**37.** Yn ein hadroddiad diwethaf, gwnaethom argymell fel a ganlyn:

---

[28] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 29.
[29] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.
[30] Llywodraeth Cymru, Llythyr Cylch Gwaith CSCC Ebrill 2022.
[31] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 22.
[32] CSCC: Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050, Hydref 2023.

> *"Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei hamserlen ar gyfer ymateb i adroddiadau'r Comisiwn. Dylai ystyried mabwysiadu amser ymateb rhwng 6 wythnos a 3 mis, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r amser ymateb ar gyfer adroddiadau gan bwyllgorau'r Senedd ac Asesydd Annibynnol Diogelu'r Amgylchedd Cymru.*[33]

**38.** Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw "amser ymateb o rhwng chwe wythnos a thri mis yn afresymol ond mae'n bosibl mai'r dull gweithredu mwyaf ymarferol fyddai trafod yr amserlen ar gyfer ymateb â'r timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru fesul adroddiad unigol".[34]

**39.** Yn ei dystiolaeth lafar, cyfeiriodd Dr. David Clubb eto at y rhwystredigaethau ynghylch y terfynau amser i Lywodraeth Cymru ymateb i argymhellion y Comisiwn, hyd yn oed o fewn y rhai y cytunwyd arnynt. Roedd newidiadau diweddar i bortffolios gweinidogol wedi achosi hyd yn oed mwy o oedi, fel yr eglurodd Dr. Clubb:

> *"our recommendations were published in October 2023, and it's then basically a year before we have any kind of traction."*[35]

Disgrifiodd y Comisiwn effaith ymatebion araf y llywodraeth i'w argymhellion:

> *"we were frustrated with some of the delays that we saw within Welsh Government policy … if you don't act on them fairly quickly, then the urgency is gone, and the opportunity then is lost as well."*[36]

**40.** Mae hwn yn bwynt y cyfeiriwyd ato yn archwiliad y llywodraeth, a ddywedodd:

> *"Y consensws ymhlith derbynwyr adroddiadau oedd bod amserlenni ymateb o 6-12 mis yn rhy hir ac y gallent effeithio ar berthnasedd yr argymhellion mewn adroddiadau."*[37]

---

[33] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2023, Ebrill 2024.
[34] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.
[35] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 25.
[36] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith , Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 26.
[37] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

**41.** Wrth ymateb i archwiliad Llywodraeth Cymru, dywedodd y Comisiwn y canlynol:

> *"We consider that responding in a timely manner is as important as the appetite for the Welsh Government for challenge from our recommendations. Mandating a shorter or longer timeframe for response would be secondary to ensuring a perception across Welsh Government that our contributions are helpful and an important part of a process intended to support delivery of good quality, resilient infrastructure in Wales."*[38]

## Ein barn ni

Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gorff sy'n cael ei greu, ei ariannu a'i benodi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor, felly, wedi'i ddrysu gan yr hyn sydd wedi ymddangos fel agwedd braidd yn anymrwymol tuag at y Comisiwn a'i waith. Mae'r oedi wrth ymateb i adroddiadau, yr adolygiad â ffocws cul, a'r ansicrwydd ynghylch y gyllideb a rolau Comisiynwyr i'r flwyddyn nesaf yn codi cwestiynau am ymrwymiad y Llywodraeth i ddyfodol y Comisiwn.

**Terfynau amser ar gyfer ymatebion y Llywodraeth i'r Comisiwn**

Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Llywodraeth adolygu'r terfynau amser ar gyfer ymateb i'r Comisiwn ac ystyried mabwysiadu amser ymateb o rhwng 6 wythnos a 3 mis. Mae'r Llywodraeth wedi cynnal yr adolygiad hwn ond nid yw wedi dod i gasgliad. Nid yw hyn yn foddhaol. Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid ymateb i argymhellion y Comisiwn hefyd o fewn terfynau amser penodol sy'n gymesur â phwyllgorau'r Senedd ac Asesydd Annibynnol Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Yn benodol, o ystyried pwysigrwydd materion sy'n ymwneud â llifogydd i bobl Cymru, dylid ymateb i'r adroddiad ar lifogydd gyda'r brys y mae difrifoldeb y materion yn ei awgrymu.

**Dyfodol y Comisiwn**

Y llynedd, gwnaeth y Pwyllgor hwn nifer o argymhellion ynghylch dyfodol y Comisiwn. Yn ganolog i'r argymhellion hyn oedd bod *"rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o statws, rôl/cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn erbyn diwedd 2024."*

---

[38] CSCC: Llythyr at Lywodraeth Cymru, 24 Chwefrory 2025. (Saesneg yn unig)

Mae'n ymddangos bod yr adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol dilynol wedi cael ei gynnal yn ddiwyd ac wedi gwneud nifer o awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwella, y mae llawer ohonynt eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan y Comisiwn. Gan nodi'r amserlen a osodwyd, byddai'n briodol i'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar weithrediad yr argymhellion hyn bob chwe mis a bob deuddeg mis (ym mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026).

Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad wedi arwain at unrhyw gasgliadau cadarn ynghylch statws, cylch gorchwyl, amcanion, neu gyllid y Comisiwn. Ym marn y Pwyllgor, ni ellir ystyried bod adolygiad nad yw'n gallu dod i unrhyw gasgliadau ar y materion mawr hyn yn gynhwysfawr. Oherwydd hyn, mae'r Comisiwn yn parhau i fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddo unrhyw syniad o ran ei ddyfodol yn y tymor byr, heb sôn am y tymor canolig.

Fel y dywed y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet, mae angen ystyried y materion hyn ymhellach. Gydag etholiadau'r Senedd ar y gorwel, mae penderfyniad ar fin cael ei wneud. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw'r Comisiwn bellach wedi'i gryfhau ag adnoddau a phwerau digonol i gyflawni ei rôl ac a ddylai hyn gynnwys yr asesiad cenedlaethol o anghenion seilwaith Cymru ar gyfer y degawdau nesaf. Wrth aros am benderfyniadau o'r fath, dylai'r Llywodraeth gael gwared ar yr ansicrwydd tymor byr ynghylch gwaith y Comisiwn drwy ymestyn cyfnodau swydd y Cadeirydd a'r comisiynwyr eraill i ochr arall etholiadau'r Senedd yn 2026.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddod â'i hadolygiad o'r Comisiwn i ben drwy wneud argymhellion cadarn ar statws, rôl ac amcanion y Comisiwn ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Llywodraeth gael gwared ar yr ansicrwydd tymor byr ynghylch gwaith y Comisiwn drwy ymestyn cyfnodau swydd y Cadeirydd a'r comisiynwyr eraill i ochr arall etholiadau'r Senedd yn 2026.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar derfyn amser benodol i ymateb i adroddiadau'r Comisiwn. Yn ein barn ni, dylai ystyried mabwysiadu amser ymateb o rhwng 6 wythnos a 3 mis, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r amser ymateb ar gyfer adroddiadau gan bwyllgorau'r Senedd ac Asesydd Annibynnol Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru orffen ei hystyriaeth o argymhelliad blaenorol y Pwyllgor y dylai ystyried yr achos dros ymestyn y tymor penodi ar gyfer Comisiynwyr, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â phenodiadau cyhoeddus eraill.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith o orffen ei hystyriaeth o statws y Comisiwn, gytuno ar gyllid ar gyfer tymor y Llywodraeth i sicrhau aliniad â'r llythyr cylch gwaith.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu argymhellion yr archwiliad ym mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026.

# 2. Rhaglen waith y Comisiwn

## Ymateb ac effaith yr adroddiad ynni adnewyddadwy

**42.** Roedd blwyddyn gyntaf rhaglen waith y Comisiwn yn canolbwyntio ar ei brosiect ynni adnewyddadwy. Cyhoeddodd ei adroddiad mawr cyntaf ar baratoi Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy 2050 ym mis Hydref 2023 a gwnaed 11 argymhelliad i Lywodraeth Cymru.[39]

**43.** Ar adeg ein sesiwn graffu ddiwethaf gyda'r Comisiwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb eto. Awgrymodd Dr.Clubb y canlynol i ni:

> *"they're struggling a bit with possibly some of our recommendations, which, for me, is a good thing. If we don't cause challenge and we don't cause people to struggle and perhaps change the way they're thinking, then we're not doing our job properly."*

**44.** Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad ynni adnewyddadwy ym mis Mai 2024. Mae'r Comisiwn wedi crynhoi ymateb Llywodraeth Cymru yn erbyn pob un o argymhellion y Comisiwn.[40]

**45.** Ym mis Gorffennaf 2024, ysgrifennodd y Comisiwn at Lywodraeth Cymru gan roi adborth ar yr ymateb a dywedodd mai ei bryder pennaf "yw ei bod yn ymddangos nad oes brys wrth ddiwygio polisïau neu reoliadau sy'n gyfan gwbl o fewn cwmpas gwaith Llywodraeth Cymru".[41] Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i lythyr y Comisiwn ym mis Gorffennaf 2024.[42]

**46.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd Dr Clubb yn onest am y rhwystredigaethau hyn wrth ddylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth:

> *"We're a little bit frustrated, and I think there are still things we would want to see. So, for example, we said, 'What's Welsh Government's vision for renewable energy by 2050?' That was something that came up consistently with stakeholders. They want to understand, are we going to be a net energy exporter, what's our view on ownership, what role is community energy going to play, how much installed capacity is there going to be,*

[39] CSCC: Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050 Hydref 2023.
[40] CSCC: Traciwr argymhellion.
[41] CSCC: Llythyr i Lywodraeth Cymru, Gorffennaf 2024.
[42] Llywodraeth Cymru: Llythyr i CSCC (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2024.

*what's your view on grid? And, really, we didn't see that; we haven't seen that."*[43]

**47.** Argymhelliad cyntaf yr adroddiad ar ynni adnewyddadwy oedd:

*Erbyn 2025, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gweledigaeth ar gyfer ynni yng Nghymru hyd at 2050, gyda Strategaeth a Chynllun Gweithredu cysylltiedig i egluro ei huchelgais hirdymor. …Dylai gweithredu'r Weledigaeth hon gael ei oruchwylio gan grŵp trawslywodraethol/sector, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog."*

**48.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud:

*"Byddwn yn defnyddio ein tystiolaeth cynllunio ynni i ddatblygu Cynllun Ynni Cenedlaethol i Gymru erbyn diwedd 2024."*[44]

**49.** Dywedodd Dr. Clubb y canlynol wrth y pwyllgor:

*"That wasn't produced, and there's a rationale for that, which we accept, …. But nonetheless, we still feel that there's a role for a vision that hasn't been outlined. So, I think that that's still something we would want to push on."*[45]

**50.** Cyfeiriodd Dr. Clubb hefyd at argymhelliad arall o'r adroddiad i alluogi mwy o berchnogaeth gymunedol o ynni adnewyddadwy:

*"Does Welsh Government want greater levels of ownership? To what extent is ownership of energy important? Those things, for me, would feel very reasonable to implement—high-level ideas on how much electricity should be generated and owned by Wales. ….We said, 'why not make ownership of projects a material consideration in the planning?' Well, aspects like that weren't really responded to, and we said, 'Well, community ownership and local ownership should both be components."*[46]

[43] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 27.
[44] Llywodraeth Cymru: ymateb adroddiad *Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050* , Mehefin 2024.
[45] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 27.
[46] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 62.

## Ymateb ac effaith yr adroddiad ar lifogydd

**51.** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn "asesu sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad erbyn 2050". Cyhoeddodd yr adroddiad hwn, gan gynnwys 17 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, ym mis Hydref 2024.[47] Mae'r Comisiwn ar hyn o bryd yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion.

**52.** Dywedodd y Comisiwn ei fod hefyd wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd[48], gan ddweud:

> *"flooding is an important aspect of their strategy. And lots of recommendations, I think, within the Welsh Government's strategy align with ours, around the integration of nature-based solutions, the establishment of long-term resilience plans, as well."*[49]

**53.** Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i baratoi ac ymatebion i stormydd, a'r ymateb iddynt, yn dilyn effeithiau difrifol Storm Bert a Storm Darragh ddiwedd 2024. Bydd tystiolaeth lafar gan y Comisiwn yn llywio'r ymchwiliad hwnnw.

**54.** Dywedodd adolygiad Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar Lifogydd 2024 wedi bod yn fwy cadarnhaol na'r ymateb i'r Adroddiad ar Ynni Adnewyddadwy 2023. Datgelodd trafodaethau â Chomisiynwyr fod newidiadau wedi'u gwneud i'r modd y cafodd yr Adroddiad ar Lifogydd ei ddatblygu a'i lansio er mwyn sicrhau ei fod yn cael mwy o effaith."* [50]

**55.** Pan gafodd ei holi am ymateb tebygol Llywodraeth Cymru, dywedodd Eluned Parrott:

> *"It is difficult because we haven't had a formal response. We've had some conversations where we're talking about some of the individual, specific things in more detail … The thing that I would say is that it's some of the bigger ticket items that are harder,*

[47] CSCC: Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050 Hydref 2024.
[48] Llywodraeth Cymru Strategaeth addasu i'r hinsawdd ar gyfer Cymru Hydref 2024.
[49] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith , Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 188.
[50] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

*sometimes, to justify or to deliver, particularly as, obviously, we're running into a not-quite-full political year, and it's difficult to make decisions at this kind of time."*[51]

## Gwaith presennol ar ohebiaeth am yr hinsawdd

**56.** Mae ffocws y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar "ohebiaeth am yr hinsawdd".[52] Dywed y Comisiwn y bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ac adroddiad yn hydref 2025.

**57.** Mae'r prosiect yn cynnwys dwy ffrwd waith ymchwil – ymgysylltu â chymunedau a seilwaith gwydn.

**58.** Bydd y ffrwd waith ymgysylltu â chymunedau yn archwilio sut y gall gwahanol gymunedau ymgysylltu â phenderfyniadau ynghylch datblygu seilwaith ac addasu i'r hinsawdd.

**59.** Bydd y ffrwd waith seilwaith gadarn yn adolygu sut mae ystyriaethau o ran newid hinsawdd o fewn prosesau cynllunio a darparu seilwaith yn cael eu hystyried o safbwynt cynnal a chadw'r seilwaith presennol a datblygu seilwaith newydd.

**60.** Dywedodd Dr.Clubb fod y prosiect ar fin cael ei gwblhau:

> *"We aimed at trying to get feedback from communities who aren't usually part of the conversation about climate change, and to try and find out whether there are things that we can learn by working with communities, to help the Welsh Government or other public bodies to understand how better to communicate with people to talk about climate change in the long term."*[53]

**61.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"The other part of the project relates to whether the infrastructure sector is sufficiently prepared for climate change in the long term …We feel that, generally, there's a gap between the understanding of communities and policy, and how can we fill that gap or bring them together and help people generally*

[51] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith , Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 208.
[52] CSCC: Gohebiaeth am yr Hinsawdd.
[53] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 79.

*know more about climate change and policy? That's what the project is trying to do."*[54]

## Prosiect blwyddyn olaf ar asesu seilwaith y dyfodol

**62.** Mae'n ofynnol i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU gynnal asesiad cyffredinol o ofynion seilwaith y DU unwaith bob pum mlynedd. Mae ei ail asesiad yn gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU.[55]

**63.** Roedd adroddiad y Pwyllgor y llynedd yn argymell y canlynol:

> *"dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw o werth ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol (yn debyg i'r asesiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU)."*[56]

**64.** Mae Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wedi trafod asesiadau seilwaith gyda chymheiriaid yng Nghomisiwn Seilwaith Seland Newydd (poblogaeth sy'n debyg o ran maint i Gymru) a gadarnhaodd mai'r gost ar gyfer cynnal eu hasesiad seilwaith cynhwysfawr oedd tua £2.5 miliwn.

**65.** Mae adolygiad y Llywodraeth yn nodi fel a ganlyn:

> *"Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n annhebygol y bydd awydd i gynnal Asesiad Seilwaith cynhwysfawr ar gyfer Cymru; byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol a byddai angen ei ystyried ochr yn ochr â newidiadau strwythurol i statws a chylch gwaith y Comisiwn."*[57]

**66.** Yn y cyd-destun hwn, mae'r Comisiwn yn datgan yn ei adroddiad blynyddol ei fod yn:

> *"awyddus i wneud darn o waith [blwyddyn olaf] gyda gwahanol sectorau seilwaith ar ba broblemau mawr y mae'r diwydiant yn debygol o'u hwynebu dros yr 80 mlynedd nesaf".*[58]

---

[54] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 80.
[55] Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, Yr Ail Asesiad Seilwaith Cenedlaethol, Hydref 2023.
[56] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023, Ebrill 2024.
[57] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.
[58] CSCC Adroddiad blynyddol 2024, tudalen 24.

**67.** Mae'r Comisiwn yn disgrifio'r gwaith hwn fel "asesu seilwaith at y dyfodol" ac yn dweud y bydd yn "cyflwyno'r canfyddiadau hyn i Lywodraeth Cymru ac yn argymell rhaglen waith" ar gyfer y Comisiwn nesaf.

**68.** Esboniodd Dr. Clubb wrth y Pwyllgor, hyd yn oed o fewn ei gyfyngiadau presennol:

> *"We can still provide a lot of value by taking a snapshot of particular sectors and then trying to rank those within some sort of priority for our investigations over the coming years."*[59]

**69.** Dywedodd adroddiad archwilio'r Llywodraeth fod y dull gweithredu yn "ateb pragmatig... a chaiff y canlyniadau eu defnyddio fel sail i benderfynu a fyddai ymarfer mwy o faint yn briodol ac yn cynnig gwerth am arian i Lywodraeth Cymru.[60]

## Ein barn ni

Mae'r Comisiwn wedi parhau i gynhyrchu adroddiadau heriol a gwerthfawr, gan wneud argymhellion defnyddiol i'r Llywodraeth a chyfraniadau meddylgar i'r trafodaethau polisi ehangach ar seilwaith yn y dyfodol. Mae'r ffaith ei fod wedi parhau i wneud hynny o fewn cyfyngiadau adnoddau prin yn bennaf oherwydd egni ac ymrwymiad y Comisiynwyr.

Mae wedi parhau i fynd ar drywydd argymhellion adroddiad ynni adnewyddadwy y llynedd, gydag olyniaeth o weinidogion y llywodraeth wrth ddilyn ei raglen o ymweliadau, gan gyhoeddi cyfraniadau meddylgar a phryfoclyd trwy ei gyfres o ddarnau blog.

Y llynedd, tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i wella ymgysylltiad y Comisiwn â'r cyhoedd. Mae'n amlwg ei fod wedi datblygu ei raglen o gyfathrebu ac ymgysylltu a'i fod yn cael ei barchu'n fwyfwy gan ei randdeiliaid allanol, fel y dangosir gan adolygiad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei ymrwymiad mawr eleni, sef ei adroddiad ar Feithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru, ac wedi parhau i weithio ar ei brosiect cyfathrebu am yr hinsawdd presennol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld allbynnau'r gwaith hwnnw yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

[59] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith , Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 95.
[60] Llywodraeth Cymru Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2025.

Serch hynny, prif nod y Comisiwn yw darparu "cyngor ac arweiniad radical a heriol sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth i …Llywodraeth Cymru, a fydd yn llywio penderfyniadau ar gyflwyno seilwaith o 2030-2100 ac yn eu diogelu at y dyfodol."[61]

Mae'r Comisiwn wedi cyflawni o ran y cyntaf, ond nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod ei gyngor yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru neu'n eu diogelu at y dyfodol. Heb hyn, ni fydd y Comisiwn yn cael yr effaith y dylid ei disgwyl.

Er nad yw'r Comisiwn wedi cael digon o adnoddau i gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol sy'n gymesur â'r hyn a gynhaliwyd gan ei gymheiriad yn y DU, mae wedi ceisio datblygu dull o ymdrin â'r gwaith hwn a allai gyflwyno dechreuadau rhaglen waith ar gyfer y Comisiwn nesaf. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod o'r farn ei bod yn werth cynnal asesiad seilwaith o'r fath.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad i gynhyrchu Cynllun Ynni Cenedlaethol i Gymru, fel y nodir yn ei hymateb i adroddiad CSCC ar ynni adnewyddadwy.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymateb amserol a sylweddol i adroddiad ar lifogydd 2024 y Comisiwn.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymateb i'r adroddiad ar gyfathrebu am yr hinsawdd cyn diwedd tymor y Senedd hwn.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Comisiwn barhau i fonitro a holi Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae'r argymhellion o'i adroddiad ynni adnewyddadwy yn cael eu rhoi ar waith.

[61] CSCC, Adroddiad Blynyddol 2024, Rhagfyr 2024.